



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2000 Rhif 1940 (Cy. 138)

2000 No. 1940 (W. 138)

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU**

**ENVIRONMENTAL
PROTECTION, WALES**

**Rheoliadau Ansawdd Aer
(Cymru) 2000**

**The Air Quality (Wales)
Regulations 2000**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae Rhan IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ("Deddf 1995") yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru adolygu ansawdd yr aer yn eu hardaloedd. Rhaid i'r adolygiadau ystyried ansawdd yr aer ar y pryd ac ansawdd tebygol yr aer yn y dyfodol yn ystod y "cyfnod perthnasol" (cyfnod sydd i'w ragnodi gan reoliadau).

Ynghyd â'r adolygiadau hyn, rhaid asesu a yw unrhyw safonau neu amcanion ansawdd aer, fel y'u rhagnodir gan reoliadau, yn cael eu cyflawni neu yn debygol o gael eu cyflawni o fewn y cyfnod perthnasol.

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n dod i rym ar 1 Awst 2000, yn rhagnodi'r cyfnod perthnasol y cyfeirir ato uchod (rheoliad 3) a'r amcanion ansawdd aer sydd i'w cyflawni erbyn diwedd y cyfnod hwnnw (rheoliad 4 a'r Atodlen). Yr un yw'r amcanion â'r rhai a nodir yn y Strategaeth Ansawdd Aer i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon (Cm 4548, Ionawr 2000) ac a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 80 o Ddeddf 1995.

Part IV of the Environment Act 1995 ("the 1995 Act") requires county and county borough councils in Wales to review the quality of air within their area. The reviews have to consider the air quality for the time being and the likely future air quality during the "relevant period" (a period to be prescribed by regulations).

Such reviews have to be accompanied by an assessment of whether any air quality standards or objectives, as prescribed by regulations, are being achieved or are likely to be achieved within the relevant period.

These Regulations, which come into force on 1 August 2000, prescribe the relevant period referred to above (regulation 3) and the air quality objectives to be achieved by the end of that period (regulation 4 and the Schedule). The objectives are the same as those set out in the Air Quality Strategy for England, Scotland, Wales and Northern Ireland (Cm 4548, January 2000) and published by the National Assembly for Wales in accordance with section 80 of the 1995 Act.

Os yw'n debygol na chyflawnir un neu fwy o'r amcanion ansawdd aer a ragnodir gan y Rheoliadau hyn o fewn unrhyw ran o ardal cyngor o fewn y cyfnod perthnasol, bydd rhaid i'r cyngor o dan sylw ddynodi'r rhan honno o'i ardal yn ardal rheoli ansawdd aer (adran 83(1) o Ddeddf 1995). Yna, bydd rhaid paratoi cynllun gweithredu sy'n ymdrin â'r ardal ddynodedig ac yn nodi sut mae'r cyngor yn bwriadu arfer ei bwerau mewn perthynas â'r ardal ddynodedig er mwyn cyflawni'r amcanion rhagnodedig (adran 84(2) o Ddeddf 1995).

Mae'r Rheoliadau hyn yn diddymu Rheoliadau Ansawdd Aer 1997. Roedd y Rheoliadau hynny yn gymwys i Brydain Fawr ond maent wedi'u diddymu eisoes i'r graddau yr oeddent yn gymwys i'r Alban gan Reoliadau Ansawdd Aer (Yr Alban) 2000 (O.S.A. 2000/97) ac i'r graddau yr oeddent yn gymwys i Loegr gan Reoliadau Ansawdd Aer (Lloegr) 2000 (O.S. 2000/928).

Where any of the air quality objectives prescribed by these Regulations are not likely to be achieved within any part of a council's area within the relevant period, the council concerned will have to designate that part of its area as an air quality management area (section 83(1) of the 1995 Act). An action plan covering the designated area will then have to be prepared setting out how the council intends to exercise its powers in relation to the designated area in pursuit of the achievement of the prescribed objectives (section 84(2) of the 1995 Act).

These Regulations revoke the Air Quality Regulations 1997. Those Regulations applied to Great Britain but have already been revoked in relation to Scotland by the Air Quality (Scotland) Regulations 2000 (S.S.I. 2000/97) and in relation to England by the Air Quality (England) Regulations 2000 (S.I. 2000/928).

2000 Rhif 1940 (Cy. 138)

2000 No. 1940 (W. 138)

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU****ENVIRONMENTAL
PROTECTION, WALES**Rheoliadau Ansawdd Aer
(Cymru) 2000The Air Quality (Wales)
Regulations 2000*Wedi'u gwneud* 19 Gorffennaf 2000*Made* 19th July 2000*Yn dod i rym* 1 Awst 2000*Coming into force* 1st August 2000

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 87(1) a (2) a 91(1) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995(a) a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(b), ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 87(7) o'r Ddeddf honno ag Asiantaeth yr Amgylchedd, unrhyw gorff neu bersonau y mae'n ymddangos i'r Cynulliad Cenedlaethol eu bod yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol a diwydiant fel y gwêl yn briodol, ac unrhyw gorff neu bersonau eraill y gwêl yn briodol:

The National Assembly for Wales makes the following Regulations, in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 87(1) and (2) and 91(1) of the Environment Act 1995(a) and of all other powers enabling him in that behalf and now vested in the National Assembly for Wales(b), having, in accordance with section 87(7) of that Act, consulted the Environment Agency, such bodies or persons appearing to the National Assembly to be representative of the interests of local government and of industry as it considers appropriate, and such other bodies or persons as it considers appropriate:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000 a deuant i rym ar 1 Awst 2000.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig .

Citation, commencement and application.

1.-(1) These Regulations may be cited as the Air Quality (Wales) Regulations 2000 and shall come into force on 1 August 2000.

(2) These Regulations apply to Wales only.

Dehongli

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn,

ystyr "amcan ansawdd aer" ("*air quality objective*") yw'r ystyr a roddir gan reoliad 4 o'r Rheoliadau hyn,

ystyr "yr Atodlen" ("*the Schedule*") yw'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn,

ystyr "Deddf 1995" ("*the 1995 Act*") yw Deddf yr Amgylchedd 1995,

Interpretation

2.-(1) In these Regulations,

"the 1995 Act" ("*Deddf 1995*") means the Environment Act 1995, "

air quality objective" ("*amcan ansawdd aer*") has the meaning given by regulation 4 of these Regulations,

"the Schedule" ("*yr Atodlen*") means the Schedule to these Regulations,

(a) 1995 p.25. *Gweler* y diffiniad o "prescribed", "regulations" a "the relevant period" yn adran 91(1) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ("Deddf 1995").

(b) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 87 a 91 o Ddeddf 1995 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 ac Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), y mae diwygiadau iddynt nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(a) 1995 c.25. *See* the definition of "prescribed", "regulations" and "the relevant period" in section 91(1) of the Environment Act 1995 ("the 1995 Act").

(b) The functions of the Secretary of State under sections 87 and 91 of the 1995 Act are transferred to the National Assembly for Wales by article 2 of and Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) to which there are amendments not relevant to these Regulations.

ystyr “sylwedd” (“substance”) yw sylwedd a restrir yng ngholofn chwith y Tabl;

acystyr “y Tabl” (“the Table”) yw'r Tabl yn Rhan I o'r Atodlen.

(2) Bydd darpariaethau Rhan II o'r Atodlen yn effeithiol at ddibenion dehongli'r Atodlen.

Cyfnodau perthnasol

3. Y cyfnod sy'n dechrau â'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym ac sy'n dod i ben ar y dyddiad a ragnodir yng ngholofn dde y Tabl gyferbyn â'r amcan ansawdd aer perthnasol yw'r cyfnod perthnasol a ragnodir at ddibenion Rhan IV o Ddeddf 1995(a) mewn perthynas ag amcan ansawdd aer.

Amcanion ansawdd aer

4.-(1) Mae yn amcan ansawdd aer ar gyfer pob sylwedd fod lefel y sylwedd hwnnw yn yr aer wedi'i gyfyngu i'r lefel a ragnodir yng ngholofn chwith y Tabl ar gyfer y sylwedd hwnnw erbyn dyddiad nad yw'n ddiweddarach na'r dyddiad a ragnodir yng ngholofn dde'r Tabl ar gyfer y sylwedd hwnnw, neu, os rhagnodir mwy nag un amcan ansawdd aer ar gyfer sylwedd, y dyddiad a ragnodir yn y golofn dde gyferbyn â'r amcan ansawdd aer perthnasol ar gyfer y sylwedd hwnnw.

(2) Rhaid penderfynu a yw amcan ansawdd aer a ragnodir yn unol â pharagraff (1) wedi'i gyflawni neu'n debygol o gael ei gyflawni drwy gyfeirio at ansawdd yr aer mewn lleoliadau

- (a) sydd y tu allan i adeiladau neu strwythurau naturiol neu artiffisial eraill uwchlaw neu islaw'r ddaear; a
- (b) lle mae aelodau o'r cyhoedd yn bresennol yn rheolaidd.

Diddymu

5. Mae Rheoliadau Ansawdd Aer 1997(b) wedi'u diddymu drwy hyn.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(c).

19 Gorffennaf 2000

Y Llywydd

(a) *Gweler* adrannau 82 i 85 o Ddeddf 1995.

(b) O.S. 1997/3043. Diddymwyd y Rheoliadau hyn, a oedd yn gymwys i Brydain Fawr, i'r graddau yr oeddent yn gymwys i'r Alban gan O.S.A. 2000/97 ac i'r graddau yr oeddent yn gymwys i Loegr gan O.S. 2000/928.

(c) 1998 p. 38.

“substance” (“*sylwedd*”) means a substance listed in the left hand column of the Table, and

“the Table” (“*y Tabl*”) means the Table in Part I of the Schedule.

(2) The provisions of Part II of the Schedule shall have effect for the purpose of the interpretation of the Schedule.

Relevant periods

3. The relevant period prescribed for the purposes of Part IV of the 1995 Act(a), in relation to an air quality objective, shall be the period beginning with the date on which these Regulations come into force and ending on the date prescribed in the right hand column of the Table opposite the relevant air quality objective.

Air quality objectives

4.-(1) It is an air quality objective for each substance that the level at which that substance is present in the air is restricted to the level prescribed in the left hand column of the Table for that substance by no later than the date prescribed in the right hand column of the Table for that substance, or, if more than one air quality objective is prescribed for a substance, the date prescribed in the right hand column opposite the relevant air quality objective for that substance.

(2) The achievement or likely achievement of an air quality objective prescribed in accordance with paragraph (1) shall be determined by reference to the quality of air at locations

- (a) which are situated outside of buildings or other natural or artificial structures above or below ground; and
- (b) at which members of the public are regularly present.

Revocation

5. The Air Quality Regulations 1997(b) are hereby revoked.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(c).

19th July 2000

D. Elis Thomas

Presiding Officer

(a) *See* sections 82 to 85 of the 1995 Act.

(b) S.I. 1997/3043. These Regulations, which applied to Great Britain, were revoked in relation to Scotland by S.S.I. 2000/97 and in relation to England by S.I. 2000/928.

(c) 1998 c.38.

YR ATODLEN Rheoliadau 2, 3 a 4	
RHAN I	
TABL AMCANION ANSAWDD AER	
Sylwedd/ Lefelau Amcanion Answdd Aer	Y dyddiad erbyn pryd mae'n rhaid cyflawni'r amcan
Bensen: 16.25 microgram y metr ciwbig neu lai, o'i fynegi fel cymedr blynyddol cyfredol	31 Rhagfyr 2003
1, 3 Biwtadien: 2.25 microgram y metr ciwbig neu lai, o'i fynegi fel cymedr blynyddol cyfredol	31 Rhagfyr 2003
Carbon monocsid: 11.6 miligram y metr ciwbig neu lai, o'i fynegi fel cymedr 8 awr cyfredol	31 Rhagfyr 2003

THE SCHEDULE Regulations 2, 3 and 4	
PART I	
TABLE AIR QUALITY OBJECTIVES	
Substance/ Air Quality Objective levels	Date by which objective to be achieved
Benzene: 16.25 micrograms per cubic metre or less, when expressed as a running annual mean	31 December 2003
1, 3 -Butadiene: 2.25 micrograms per cubic metre or less, when expressed as a running annual mean	31 December 2003
Carbon monoxide: 11.6 milligrams per cubic metre or less, when expressed as a running 8 hour mean	31 December 2003

<p>Nitrogen deuocsid: 200 microgram y metr ciwbig neu lai, o'i fynegi fel cymedr yn ôl yr awr, na ellir mynd yn uwch na hynny fwy na 18 gwaith y flwyddyn</p>	31 Rhagfyr 2005
<p>Nitrogen deuocsid: 40 microgram y metr ciwbig neu lai, o'i fynegi fel cymedr blynyddol</p>	31 Rhagfyr 2005
<p>Plwm: 0.5 microgram y metr ciwbig neu lai, o'i fynegi fel cymedr blynyddol</p>	31 Rhagfyr 2004
<p>Plwm: 0.25 microgram y metr ciwbig neu lai, o'i fynegi fel cymedr blynyddol</p>	31 Rhagfyr 2008
<p>PM₁₀: 50 microgram y metr ciwbig neu lai, o'i fynegi fel cymedr 24 awr, na ellir mynd yn uwch na hynny fwy na 35 gwaith y flwyddyn</p>	31 Rhagfyr 2004
<p>PM₁₀ 40 microgram y metr ciwbig neu lai, o'i fynegi fel cymedr blynyddol</p>	31 Rhagfyr 2004

<p>Nitrogen dioxide: 200 micrograms per cubic metre or less, when expressed as an hourly mean, not to be exceeded more than 18 times a year</p>	31 December 2005
<p>Nitrogen dioxide: 40 micrograms per cubic metre or less, when expressed as an annual mean</p>	31 December 2005
<p>Lead: 0.5 micrograms per cubic metre or less, when expressed as an annual mean</p>	31 December 2004
<p>Lead: 0.25 micrograms per cubic metre or less, when expressed as an annual mean</p>	31 December 2008
<p>PM₁₀: 50 micrograms per cubic metre or less, when expressed as a 24 hour mean, not to be exceeded more than 35 times a year</p>	31 December 2004
<p>PM₁₀ 40 micrograms per cubic metre or less, when expressed as an annual mean</p>	31 December 2004

<p>Sylffwr deuocsid: 125 microgram y metr ciwbig neu lai, o'i fynegi fel cymedr 24 awr na ellir mynd yn uwch na hynny fwy na 3 gwaith y flwyddyn</p>	31 Rhagfyr 2004
<p>Sylffwr deuocsid: 350 microgram y metr ciwbig neu lai, o'i fynegi fel cymedr yn ôl yr awr, na ellir mynd yn uwch na hynny fwy na 24 gwaith y flwyddyn</p>	31 Rhagfyr 2004
<p>Sylffwr deuocsid: 266 microgram y metr ciwbig neu lai, o'i fynegi fel cymedr 15 munud, na ellir mynd yn uwch na hynny fwy na 35 gwaith y flwyddyn</p>	31 Rhagfyr 2005

<p>Sulphur dioxide: 125 micrograms per cubic metre or less, when expressed as a 24 hour mean, not to be exceeded more than 3 times a year</p>	31 December 2004
<p>Sulphur dioxide: 350 micrograms per cubic metre or less, when expressed as an hourly mean, not to be exceeded more than 24 times a year</p>	31 December 2004
<p>Sulphur dioxide: 266 micrograms per cubic metre or less, when expressed as a 15 minute mean, not to be exceeded more than 35 times a year</p>	31 December 2005

Dehongli

At ddibenion yr Atodlen hon:

1.-(1) Cymedr blynyddol cyfredol yw cymedr a gyfrifir yn ôl yr awr, gan ildio un cymedr blynyddol cyfredol yr awr. Y cymedr blynyddol cyfredol ar gyfer sylwedd mewn lleoliad penodol am awr benodol yw cymedr y lefelau yn ôl yr awr ar gyfer y sylwedd hwnnw yn y lleoliad hwnnw am yr awr honno a'r 8759 o oriau blaenorol.

(2) Er mwyn cyfrifo cymedr blynyddol cyfredol, y lefel yn ôl yr awr ar gyfer sylwedd mewn lleoliad penodol yw naill ai:

- (a) y lefel lle cofnodir bod y sylwedd hwnnw yn bresennol yn yr aer yn y lleoliad hwnnw yn ystod yr awr ar sail sampl barhaus o aer a gymerir yn ystod yr awr honno am 30 munud o leiaf; neu
- (b) cymedr y lefelau a gofnodir yn y lleoliad hwnnw ar sail 2 neu ragor o samplau o aer a gymerir yn ystod yr awr am gyfnod agregeedig o 30 munud o leiaf.

2. Cymedr a gyfrifir ar sail oriau ac sy'n ildio un cymedr 8 awr cyfredol yr awr yw cymedr 8 awr cyfredol. Cymedr y cymedrau yn ôl yr awr ar gyfer sylwedd mewn lleoliad penodol am awr benodol a'r 7 awr flaenorol yw'r cymedr 8 awr cyfredol ar gyfer y sylwedd hwnnw yn y lleoliad hwnnw am yr awr honno.

3.-(1) Cymedr a gyfrifir ar sail flynyddol ac sy'n ildio un cymedr blynyddol y flwyddyn galendr yw cymedr blynyddol. Y cymedr blynyddol ar gyfer sylwedd mewn lleoliad penodol mewn blwyddyn galendr benodol yw:

- (a) o ran plwm, cymedr y lefelau dyddiol ar gyfer y flwyddyn honno;
- (b) o ran nitrogen deuocsid, cymedr y cymedrau yn ôl yr awr ar gyfer y flwyddyn honno; ac
- (c) o ran PM₁₀, cymedr y cymedrau 24 awr ar gyfer y flwyddyn honno;

(2) At ddibenion cyfrifo'r cymedr blynyddol ar gyfer plwm, y lefel ddyddiol ar gyfer plwm mewn lleoliad penodol ar ddiwrnod penodol yw'r lefel lle cofnodir bod plwm yn bresennol yn yr aer yn y lleoliad hwnnw yn ystod yr wythnos y digwydd y diwrnod ar sail sampl barhaus o aer a gymerir drwy gydol yr wythnos honno (gan briodoli'r un lefel ddyddiol felly i bob diwrnod o'r wythnos honno).

(3) Ystyr "PM₁₀" yw mater gronynnol sy'n llwyddo i fynd drwy fewnfa dethol maint gyda therfyn effeithlonrwydd o 50% pan fydd y diamedr aerodynamig yn 10µm.

Interpretation

For the purposes of this Schedule:

1.-(1) A running annual mean is a mean which is calculated on an hourly basis, yielding one running annual mean per hour. The running annual mean for a substance at a particular location for a particular hour is the mean of the hourly levels for that substance at that location for that hour and the preceding 8759 hours.

(2) For the purpose of the calculation of a running annual mean, the hourly level for a substance at a particular location is either:

- (a) the level at which that substance is recorded as being present in the air at that location during the hour on the basis of a continuous sample of air taken during that hour for at least 30 minutes; or
- (b) the mean of the levels recorded at that location on the basis of 2 or more samples of air taken during the hour for an aggregate period of at least 30 minutes.

2. A running 8 hour mean is a mean which is calculated on an hourly basis, yielding one running 8 hour mean per hour. The running 8 hour mean for a substance at a particular location for a particular hour is the mean of the hourly means for that substance at that location for that hour and the preceding 7 hours.

3.-(1) An annual mean is a mean which is calculated on a yearly basis, yielding one annual mean per calendar year. The annual mean for a substance at a particular location for a particular calendar year is:

- (a) in the case of lead, the mean of the daily levels for that year;
- (b) in the case of nitrogen dioxide, the mean of the hourly means for that year; and
- (c) in the case of PM₁₀, the mean of the 24 hour means for that year.

(2) For the purpose of the calculation of the annual mean for lead, the daily level for lead at a particular location for a particular day is the level at which lead is recorded as being present in the air at that location during the week in which the day occurs on the basis of a continuous sample of air taken throughout that week (each day in that week therefore being attributed with the same daily level).

(3) "PM₁₀" means particulate matter which passes through a size-selective inlet with a 50% efficiency cut-off at 10µm aerodynamic diameter.

(4) At ddibenion is-baragraff (2) ystyr "wythnos" yw wythnos gyflawn sy'n dechrau ar ddydd Llun, ac eithrio ei bod hefyd yn cynnwys unrhyw gyfnod o lai na saith diwrnod o ddechrau'r flwyddyn galendr hyd at y dydd Llun cyntaf yn y flwyddyn honno neu o ddechrau'r dydd Llun olaf yn y flwyddyn galendr hyd at ddiwedd y flwyddyn honno.

4. Cymedr a gyfrifir bob awr yw cymedr yn ôl yr awr. Cymedr y lefelau a gofnodir, ar fynychder o nid llai nag unwaith bob 10 eiliad, ar gyfer sylwedd mewn lleoliad penodol yn ystod awr benodol yw'r cymedr yn ôl yr awr ar gyfer y sylwedd hwnnw yn y lleoliad hwnnw yn ystod yr awr honno.

5. Cymedr a gyfrifir bob 24 awr yw cymedr 24-awr. Y lefel lle cofnodir bod sylwedd yn bresennol yn yr aer mewn lleoliad penodol ar sail sampl barhaus o aer a gymerir drwy gydol y cyfnod o 24 awr yw'r cymedr 24-awr ar gyfer y sylwedd hwnnw yn y lleoliad hwnnw am y cyfnod hwnnw.

6. Cymedr a gyfrifir bob 15 munud yw cymedr 15-munud. Cymedr y lefelau a gofnodir, ar fynychder o nid llai nag unwaith bob 10 eiliad, ar gyfer sylwedd mewn lleoliad penodol yn ystod cyfnod o 15 munud yw'r cymedr 15-munud ar gyfer y sylwedd hwnnw yn y lleoliad hwnnw am y 15 munud hynny.

7. Mae'r cyfeiriad at nifer o ficrogramau neu filigramau y metr ciwbig o sylwedd yn gyfeiriad at y nifer o ficrogramau neu filigramau y metr ciwbig o'r sylwedd hwnnw o'i fesur gyda'r cyfaint wedi'i safoni ar dymheredd o 293 K ac ar bwysedd o 101.3 kPa.

(4) For the purpose of sub-paragraph (2), "week" means a complete week beginning on a Monday, except that it also includes any period of less than seven days from the beginning of the calendar year until the first Monday in that year or from the beginning of the last Monday in the calendar year to the end of that year.

4. An hourly mean is a mean calculated every hour. The hourly mean for a substance at a particular location for a particular hour is the mean of the levels recorded, at a frequency of not less than once every 10 seconds, for that substance at that location during that hour.

5. A 24 hour mean is a mean calculated every 24 hours. The 24 hour mean for a substance at a particular location for a particular 24 hour period is the level at which that substance is recorded as being present in the air at that location on the basis of a continuous sample of air taken throughout the period.

6. A 15 minute mean is a mean calculated every 15 minutes. The 15 minute mean for a substance at a particular location for a particular 15 minutes is the mean of the levels recorded, at a frequency of not less than once every 10 seconds, for that substance at that location during that 15 minutes.

7. The reference to a number of micrograms or milligrams per cubic metre of a substance is a reference to the number of micrograms or milligrams per cubic metre of that substance when measured with the volume standardised at a temperature of 293 K and at a pressure of 101.3 kPa.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2000 Rhif 1940 (Cy. 138)

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU**

Rheoliadau Ansawdd Aer
(Cymru) 2000

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2000 No. 1940 (W. 138)

**ENVIRONMENTAL
PROTECTION, WALES**

The Air Quality (Wales)
Regulations 2000

©© Hawlfraint y Goron 2000

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg El Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2000

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£2.50

W/36 08/00

ISBN 0-11-090111-8



9 780110 901114